

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y BIL PRISIAU YNNI

1. Cafodd y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn ei osod o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ac y gellir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n diwygio'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cafodd y Bil Prisiau Ynni ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Hydref 2022. Cewch ei weld ar wefan Senedd y DU: [Energy Prices Bill - Parliamentary Bills - UK Parliament](#).

Amcanion y Polisi

3. Amcanion datganedig polisi Llywodraeth y DU yw rhoi cymorth i aelwydydd a busnesau trwy ddarparu'r fframwaith deddfwriaethol i roi Cynllun Gwarant Prisiau Ynni a Chynllun Cymorth Bil Ynni Llywodraeth y DU ar waith.
4. Bydd y cynlluniau hyn yn gymwys i bob defnyddiwr domestig ac annomestig ar y grid a bydd yn sicrhau bod y cymorth yn cwmpasu'r cynnydd yn y costau o fis Hydref ymlaen. Bydd y Bil hefyd yn helpu defnyddwyr domestig ac annomestig nad ydynt yn dod o dan y naill gynllun na'r llall, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio tanwyddau amgen fel olew gwresogi, yn byw mewn cartrefi mewn parc, neu'r rhai ar rwydweithiau gwres.
5. Mae'r Bil hefyd yn deddfu ynghylch pwerau i bennu pris sefydlog dros dro ar gynhyrchwyr ynni carbon isel nad ydynt eisoes ar Gontractau ar gyfer Gwahaniaeth (CfD), i gyfyngu ar y refeniw y cânt ei ennill yn y farchnad gyfanwerthu. Bwriedir i'r pris sefydlog dros dro fod yn ymyrraeth tymor byr, gyda'r nod o leihau effaith y prisiau cyfanwerthu anarferol o uchel ar ddefnyddwyr. Bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi pa gategoriâu o gynhyrchwyr ynni a ddaw o fewn cwmpas hyn a lefel briodol y refeniw y caiff y cynhyrchwyr hyn ei ennill yn y farchnad.

Crynodeb o'r Bil

6. Noddir y Bil gan yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Mae'n cyflwyno:
 - pwerau sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i sefydlu cynlluniau ar gyfer Prydain Fawr i leihau prisiau trydan a nwy domestig a

darpariaethau atodol, gan gynnwys pwerau sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau o dan y weithdrefn negyddol (gweler cymalau 1-4 ac Atodlen 6);

- pwerau sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynghylch lleihau'r swm sy'n daladwy am drydan annomestig a gyflenwir gan gyflenwyr trwyddedig a gwneud taliadau i gyflenwyr am y gostyngiadau hynny. Gwneir hynny o dan y weithdrefn gadarnhaol (gweler cymalau 9 a 10 ac Atodlenni 1 a 6);
- pwerau sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i roi cymorth ar gyfer talu costau ynni ac ati (gweler cymalau 13 a 14 ac Atodlen 6); a gwneud rheoliadau ynghylch cyrff y dynodir rôl iddynt o ran rhoi cymorth o'r fath. Gwneir hynny o dan y weithdrefn negyddol (gweler cymal 15);
- pwerau sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr trydan wneud taliadau i weinyddwr at ddiben cyllido taliadau i gyflenwyr trydan sy'n gysylltiedig â lleihau costau i gwsmeriaid, neu ag ysgwyddo gwariant yr Ysgrifennydd Gwladol ar leihau costau o'r fath. Daw'r rheoliadau cyntaf o'r fath o dan y weithdrefn gadarnhaol, ac wedi hynny o dan y weithdrefn negyddol (gweler cymalau 16 ac 17);
- diwygiadau i Ddeddf Trydan 2013 sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynghylch Contractau ar gyfer Gwahaniaeth mewn perthynas â chynhyrchwyr trydan carbon isel. Daw'r pwerau newydd a grëir drwy hynny o dan y weithdrefn gadarnhaol (gweler cymal 18);
- pwerau sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n gosod gofynion i drosglwyddo cymorth prisiau ynni i ddefnyddwyr, yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol (gweler cymal 19);
- diwygiadau i Ddeddf Nwy a Thrydan Domestig (Cap Tariff) 2018 (gweler cymal 20 ac Atodlen 3);
- pwerau sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i newid trwyddedau neu bwrpas adran 4 o Ddeddf Trydan 1989 ac adran 5 o Ddeddf Nwy 1986 (gweler cymal 21);
- pŵer sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i roi cyfarwyddiadau mewn ymateb i'r argyfwng ynni neu mewn cysylltiad â darpariaeth yn neu o dan y Bil (gweler cymal 22)

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

7. Mae'r cymalau canlynol yn gwneud 'darpariaeth berthnasol' at ddibenion Rheol Sefydlog 29.1—
8. Pwrpas cymalau 13 (pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i roi cymorth ar gyfer ysgwyddo costau ynni ac ati); 14 (gweithdrefn ac adrodd mewn cysylltiad ag adran 13); 15 (rôl cyrff eraill wrth roi cymorth ar gyfer ysgwyddo costau ynni ac ati); a 19 (y gofyn i drosglwyddo cymorth prisiau ynni i'r defnyddwyr terfynol) yw creu'r pwerau i allu sefydlu cynllun dewisol ar gyfer darparu cymorth ariannol a chymorth arall ar gyfer ysgwyddo cost ynni ac ati, a phasio manteision hynny ymlaen i'r defnyddwyr terfynol. Nid yw'r mathau o gymorth dan sylw, sydd wedi'u hanelu i daclo caledi ariannol, o fewn cwmpas unrhyw un o'r materion a gedwir yn ôl ac a

restrir dan "Bennawd D – Ynni" yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2016, nac ag unrhyw faterion eraill a gedwir yn ôl ac a restrir yn yr Atodlen honno.

9. Mae Cymal 22 (pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i roi cyfarwyddiadau) yn rhoi pwerau cyfarwyddo eang i'r Ysgrifennydd Gwladol. Er, o dan gymal 22(3)(b) dim ond person sydd â thrwydded ynni all ddod o dan gyfarwyddyd o'r fath, nid yw'r pŵer wedi'i gyfyngu'n benodol i weithgareddau deiliaid trwydded yn y meysydd sy'n berthnasol i faterion a gedwir yn ôl.

Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

10. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen caniatâd Senedd Cymru ar y cymalau a ddisgrifir ym mharagraffau 7 i 9 uchod.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Prisiau Ynni

11. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau a fydd yn helpu pobl Cymru. Mae sefydlu fframwaith deddfwriaethol sy'n caniatáu cynllun i ostwng pris trydan a nwy i gwsmeriaid domestig sydd ar system Prydain Fawr yn gam cadarnhaol yn enwedig yn ystod yr argyfwng costau byw hwn. Mae'r mecanweithiau a awgrymir i drosglwyddo'r arbedion yn uniongyrchol yn effeithlon.
12. Mae'n hanfodol bod y cymorth yn cyrraedd y bobl neu'r busnesau y bwriedir eu hamddiffyn rhag y costau ynni gormodol. Mae'r adran sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i fynnu bod y personau y darperir cymorth prisiau ynni iddynt yn pasio'r cymorth trwodd felly yn hanfodol er mwyn diogelu defnyddwyr terfynol rhag cyfryngwyr a allai fel arall beidio â throsglwyddo'r cymorth hwn.
13. Mae'n ddiymwad bod cynhyrchwyr ynni adnewyddadwy, yn benodol y rhai ar gontractau Rhwymedigaethau Adnewyddadwy (RO) tymor hir, wedi elwa ar yr argyfwng ynni presennol. Fodd bynnag, gellid dadlau bod y cynhyrchwyr hyn yn cymryd risg ar dechnoleg sy'n datblygu, ac mae angen i ni sicrhau nad yw newidiadau yn y ffordd y cyllidir ynni adnewyddadwy yn lladd y cymhelliad i fuddsoddi. Mae angen diwygio'r farchnad ynni gan gynnwys y modd y cyllidir ynni adnewyddadwy, ond mae angen gwneud hyn mewn ffordd sy'n darparu'r cymhellion angenrheidiol i symud i system ynni sero-net ac sy'n gwneud hynny yn y ffordd fwyaf blaengar.

Goblygiadau ariannol

14. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r memorandwm hwn. Ond bydd gan yr is-ddeddfwriaeth oblygiadau ariannol i'r sector cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol. Mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn am sicrwydd gan Lywodraeth y DU y bydd digon o adnoddau ar gael i gyrff yng Nghymru i weithredu'r mesurau a nodir yn y Bil.

Casgliadau

15. Fel y nodir uchod, mae angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru ar nifer o gymalau yn y Bil. O ystyried budd y darpariaethau i bobl Cymru rwy'n argymhell bod cydsyniad yn cael ei roi.

Julie James AS
Gweinidog Newid Hinsawdd
18 Hydref 2022

